OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 2939

# Rheoliadau Bwyd at Ddefnydd Maethol Neilltuol (Ychwanegu Sylweddau at Ddibenion Maethol Penodol) (Cymru) 2002

**Cymhwyso amrywiol ddarpariaethau'r Ddeddf**

**9.** Bydd darpariaethau canlynol y Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn gyda'r addasiad bod rhaid dehongli unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at y Ddeddf neu Ran ohoni at ddibenion y Rheoliadau hyn fel cyfeiriad at y Rheoliadau hyn—

(a) adran 2 (ystyr estynedig "sale" etc.);

(b) adran 3 (rhagdybiaethau fod bwyd wedi'i fwriadu i gael ei fwyta gan bobl);

(c) adran 20 (tramgwyddau o ganlyniad i fai person arall);

(ch) adran 21 (amddiffyniad diwydrwydd dyladwy) fel y mae'n gymwys at ddibenion adran 8, 14 neu 15;

(d) adran 22 (amddiffyniad o gyhoeddi yng nghwrs busnes);

(dd) adran 30(8) (sy'n ymwneud â thystiolaeth ddogfennol);

(e) adran 33(1) (rhwystro etc. swyddogion);

(f) adran 33(2), gyda'r addasiad bod rhaid ystyried bod y cyfeiriad at "any such requirement as is mentioned in subsection (1)(b) above" yn gyfeiriad at unrhyw ofyniad a grybwyllir yn yr is-adran honno fel y'i cymhwysir gan baragraff (e) uchod;

(ff) adran 35(1) (cosbi am dramgwyddau) i'r graddau y mae'n ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33(1) fel y cânt eu cymhwyso gan baragraff (f);

(g) adran 35(2) a (3) i'r graddau y mae'n ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33(2) fel y'i cymhwysir gan baragraff (f) uchod;

(ng) adran 36 (tramgwyddau gan gyrff corfforaethol); ac

(h) adran 44 (amddifyn swyddogion sy'n gweithredu yn ddidwyll).